# Tasg 1

**(Estynnol, sbardun 2)**

1. Rhowch CYWIR neu ANGHYWIR wrth y brawddegau hyn:

   a. Dynion yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gwnïo dillad.
   b. Dydy'r ffatrïoedd ddim yn ddiogel bob amser.
   c. Mae'r rhai sy' n gwnïo'n ennill arian mawr.
   ch. Menywod ifanc yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr.
   d. Mae'r oriau'n hir iawn fel arfer.
   dd. Digwyddodd tân yn adeilad Rana Plaza.
   e. Doedd neb yn meddwl bod adeilad Rana Plaza yn beryglus pan ddigwyddodd y ddamwain.
   f. Roedd gweithwyr Rana Plaza yn gwneud dillad i siopau stryd fawr Cymru.
   ff. Cafodd dros fil a hanner o bobl eu lladd yn y tân yn ffatri Tazreen Fashions.
   g. Roedd hi'n hawdd dianc o'r adeilad.

2. Pam mae ffatrïoedd dillad yn arbennig o beryglus os bydd tân?

3. Pa ffaith oedd yn arbennig o drist:
   - am ddamwain adeilad Rana Plaza?
   - am y tân yn ffatri Tazreen Fashions?

4. Ar ôl darllen yn ofalus, trafodwch â phartner beth sy'n cael ei ddweud am:
   - Bangladesh
   - goramser
   - Matalan

**FFURF Y DARN**

Edrychwch ar **ffurf** y darn. Dyma rai nodweddion ar y darn:

- Prif bennawd
- Is-benawdau
- Pwyntiau bwled
- Delweddau

Trafodwch beth yw pwrpas y nodweddion hyn. Ym mha ffordd arall y gallai'r wybodaeth fod wedi cael ei threfnu?